CYNGOR CASTELL-NEDD PORT TALBOT
NEATH PORT TALBOT COUNCIL

Castell-nedd Port Talbot
Oedolion Dysgu yn y Gymuned

# Prosbectws 2023-2024








Castell-nedd Port Talbot
Oedolion Dysgu yn y Gymuned

# CYNNWYS

Hoffai Addysg Oedolion estyn croeso cynnes i bob un ohonoch sy'n dod yn ôl ac i'r rhai sy'n ystyried astudio gyda ni am y tro cyntaf. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich taith ddysgu.

Mae ein Prosbectws yn rhestru cyrsiau newydd a rhai sy'n parhau o lefel mynediad hyd at Lefel 3. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno mewn canolfannau ledled Castell-nedd Port Talbot. Rydyn ni hefyd yn darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor sy'n ddiduedd ac yn rhad ac am ddim, gan gynnwys cefnogi llesiant, cymorth i'ch rhoi ar y cwrs cywir a chefnogaeth ychwanegol ar gyfer llythrennedd, rhifedd a sgiliau TG. Gofynnwch i'ch tiwtor neu aelod o'r Tîm Addysg Oedolion am ragor o wybodaeth.

Rydyn ni'n croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os ydych chi am gael y Prosbectws yma yn Saesneg, cysylltwch â ni ar: 01639 763059

**Nodwch bod y cyrsiau yma yn cael eu addysgu drwy gyfrwng y Saesneg.**

**Edrychwn ymlaen at eich croesawu.**

**Y Tîm Addysg Oedolion.**


| | |
|---|---|
| Cofrestru a Dyddiadau Tymor | 3 |
| Gwasanaethau Cefnogi | 4 |
| Gweithio Mewn Partneriaeth | 5 |
| Sesiynau Ymgysylltu | 6 |
| Iaith Arwyddion Prydain ac Ymwybyddiaeth o Fod yn Fyddar | 7 |
| Gofal a Datblygiad Plant | 8 |
| Cyrsiau TGAU | 10 |
| Safon Uwch | 12 |
| Cyrsiau Ychwanegol | 14 |
| Sgiliau Digidol | 15 |
| Sgiliau Hanfodol am Ddim | 16 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 17 |
| Dyniaethau | 19 |
| Sgiliau Gwaith | 22 |
| Ffioedd Arholiadau ac Ad-daliadau | 26 |



01639 686654 nptal@npt.gov.uk

Castell-nedd Port Talbot
Oedolion Dysgu yn y Gymuned

# COFRESTRU A DYDDIADAU TYMOR

## Dyddiadau Tymhorau'r Flwyddyn Academaidd 2023-2024

| | |
|---|---|
| Tymor yr Hydref 1 | 1af Medi - 27ain Hydref |
| Hanner Tymor yr Hydref | 30ain Hydref – 3ydd Tachwedd |
| Tymor yr Hydref 2 | 6ed Tachwedd – 22ain Rhagfyr |
| Gwyliau Nadolig | 25ain Rhagfyr – 5ed Ionawr |
| Tymor y Gwanwy 1 | 8fed Ionawr – 9fed Chwefror |
| Hanner Tymor y Gwanwyn | 12fed Chwefror – 16eg Chwefror |
| Tymor y Gwanwy 2 | 19eg Chwefror - 22ain Mawrth |
| Gwyliau Pasg | 25ain Mawrth – 5ed Ebrill |
| Tymor yr Haf 1 | 8fed Ebrill – 24ain Mai |
| Hanner Tymor yr Haf | 27th May – 31st May |
| Tymor yr Haf 2 | 3ydd Mehefin - 19eg Gorffennaf |

# PECYN CYMORTH SGILIAU HANFODOL CYMRU (WEST)

Ar rai o'n cyrsiau efallai y bydd angen i chi gwblhau asesiad llythrennedd a/neu rifedd drwy WEST.

Bydd aelod o'r Tîm Addysg Oedolion yn esbonio'r canllawiau i chi. Os ydych chi wedi cwblhau asesiad gydag Addysg Oedolion neu ddarparwr arall, fydd dim gofyn i chi wneud hynny eto. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu â Jo ar 07970 969824.

Gofynion mynediad:
Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y rhan fwyaf o ddosbarthiadau Addysg Oedolion. Yn ystod y cwrs bydd eich tiwtor yn eich cefnogi i adeiladu eich portffolio. Mae sesiynau Sgiliau Astudio hefyd ar gael i'ch cefnogi ymhellach.

Talu am eich cwrs ar-lein:
Gallwch dalu am eich cwrs gyda cherdyn debyd neu gredyd drwy fynd i www.npt.gov.uk. Gofynnwch i'n Tîm Addysg Oedolion am gymorth i dalu ar-lein.

Mae cofrestru'n agor ar 1af Awst.

I gofrestru dros y ffôn, ffoniwch ni ar: 01639 686306 neu 07483 817851 neu 01639 686654.

I gofrestru wyneb yn wyneb, mae ffurflenni cofrestru ar gael o Ganolfan Tir Morfa; llenwch y ffurflen a'i llofnodi a'i dychwelyd yn ôl atom ni yn:

Addysg Oedolion
Canolfan Tir Morfa
Marine Drive, Sandfields, Port Talbot
SA12 7NN
Ffôn: 01639 686306

Gwnewch y siec yn daladwy i Gyngor Castell-nedd Port Talbot.

# GWASANAETHAU CEFNOGI

- Cyrsiau a Hyfforddiant
- Opsiynau Gyrfa
- CV a Sgiliau mewn Cyfweliad
- Cyfeirio at Asiantaethau Cefnogi
- Cyfleoedd Gwirfoddoli
- Cefnogaeth Iechyd Meddwl megis gwrando ar eich pryderon, darparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio
- Cefnogaeth Sgiliau Hanfodol
- Trefniadau Mynediad ar gyfer Arholiadau ac Asesiadau
- Cefnogaeth gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Cefnogaeth WEST

# GWIRFODDOLI

Os ydych chi'n chwilio am her newydd neu am newid gyrfa, mae rhoi ychydig oriau o'ch amser i wirfoddoli yn ffordd wych i ddatblygu eich sgiliau.

Mae gwirfoddoli'n ffordd wych i wneud gwahaniaeth ac ennill profiad gwaith gwerthfawr. Gallwch gwrdd â phobl ddiddorol, codi eich hyder ac ennill sgiliau sy'n newid bywyd.

Rydyn ni'n cynnig lleoliadau mewn amryw o ganolfannau dysgu, gyda chyfleoedd i gael profiad mewn meysydd mor amrywiol â chyfryngau digidol, cefnogaeth yn y dosbarth a gweinyddu swyddfa.
Caiff gwirfoddolwyr eu hasesu a'u cefnogi gan gydlynydd gwirfoddolwyr penodedig.

**Cysylltwch â Jo ar 07970 969824 neu j.griffin@npt.gov.uk am wybodaeth.**

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

## RHWYDWAITH DYSGU A SGILIAU CNPT

Caiff Addysg Oedolion ei ariannu'n rhannol drwy gytundeb masnachfraint gyda Grŵp Colegau CNPT ac yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae Addysg Oedolion yn gweithio'n agos gyda nifer o bartneriaid i sicrhau'r gorau ar gyfer pob dysgwr. Anelwn i ddarparu profiad dysgu o ansawdd da mewn amrywiaeth o leoliadau ar draws ardal ddaearyddol eang, gan ddod â dysgu i galon eich cymuned. Mae angen eich llais arnom i gwrdd â'n hamcanion ac rydym bob amser yn hapus i glywed eich barn.

Mae Addysg Oedolion yn aelod o'r Rhwydwaith Dysgu a Sgiliau mewn cydweithrediad â darparwyr dysgu eraill yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, trefnodd Addysg Oedolion ddigwyddiadau Dysgu i'r Teulu mewn ysgolion yn ystod 2022 - 2023 ac roedden nhw'n llwyddiannus iawn. Fe fuon ni hefyd yn hyrwyddo addysg oedolion mewn gwahanol ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn mewn dyddiau hwyl i'r teulu, nifer o ffeiriau swyddi, digwyddiadau iechyd a lles a dyddiau agored yng Nghanolfan Tir Morfa.



Castell-nedd Port Talbot Oedolion Dysgu yn y Gymuned

# SESIYNAU YMGYSYLLTU

## GWEITHDAI YMGYSYLLTU

Rydyn ni'n cynnig dewis o sesiynau cyflwyno a blasu crefftau ynghyd â gweithdai iechyd a lles, gyda dull cyfannol tuag at adeiladu hyder a dod â grwpiau cymunedol anghysbell at ei gilydd. Mae'r sesiynau hyn yn gyfle i gwrdd â phobl newydd, cysylltu gyda grwpiau lleol, datblygu hobi newydd ac i symud ymlaen at gwrs. Mae sesiynau'n cynnwys gweithio gyda gwydr, cregyn, paent, ffelt a sgiliau gwnïo. Maen nhw hefyd yn cynnwys bwyta'n iach, dysgu i'r teulu, garddio a llawer mwy. Rydyn ni bob amser yn gwneud ein gorau i ddatblygu gweithdai newydd a chyffrous yn seiliedig ar anghenion a dymuniadau ein cyfranogwyr.





# IAITH ARWYDDION PRYDAIN

## CYFLWYNIAD I BSL (AGORED CYMRU)

Cwrs BSL 6 wythnos i ddechreuwyr neu i rai gydag ychydig o wybodaeth BSL, wedi'i gyflwyno mewn amgylchedd ymlaciol a chefnogol. Bydd dysgwyr yn deall ac yn defnyddio arwyddion sylfaenol ar gyfer llythrennau'r wyddor ac yn dysgu sut i gyfleu manylion personol a chyfarchion sylfaenol.

## BSL LEFEL 1 SIGNATURE

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddylunio i alluogi dysgwyr i gyfathrebu gyda phobl Fyddar drwy Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar amrywiaeth o bynciau sy'n defnyddio iaith syml, bob dydd. Byddan nhw'n ennill sgiliau sylfaenol a hyder wrth gynhyrchu a derbyn BSL. Mae trywydd i symud ymlaen at BSL Lefel 2 ar ôl cwblhau rhaglen Lefel 1 yn llwyddiannus.

## BSL LEFEL 2 SIGNATURE

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddylunio i alluogi dysgwyr i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng BSL mewn amryw o gyd-destunau cyfarwydd drwy gymryd rhan mewn sgyrsiau hir a phenagored. Bydd y cwrs yn datblygu cyfathrebu ymarferol mewn BSL drwy gyfrwng amrywiaeth o brofiadau dydd i ddydd bywyd go iawn. Bydd dysgwyr yn gallu delio gyda'r rhan fwyaf o dasgau iaith arferol a bydd ganddyn nhw afael digonol ar ramadeg i ymdopi gyda rhai tasgau mwy anarferol. Mae symud ymlaen i gwrs BSL Lefel 3 yn ddewisol unwaith y byddwch yn cwblhau'r cwrs yma'n llwyddiannus.

## BSL LEFEL 3 SIGNATURE

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddylunio i alluogi dysgwyr sydd eisoes yn meddu ar gymhwyster mewn BSL ar Lefel 2 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth. Rhaid i ddysgwyr llwyddiannus allu dangos cymhwysedd ar Lefel 4 Safonau Iaith Galwedigaethol y DU (Instructus 2012). Mae hyn yn golygu y bydd y dysgwr yn gallu deall a defnyddio BSL amrywiol mewn gwahanol sefyllfaoedd gwaith a chymdeithasol.

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth uwch o strwythur a swyddogaeth Iaith Arwyddion Prydain a dealltwriaeth o'r gymuned Fyddar a diwylliant Byddar.



# GOFAL A DATBLYGIAD PLANT

## CYFLWYNIAD I OFAL PLANT

Bydd dysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd chwarae, yn adeiladu eu hyder, a bydd y cwrs yn eu helpu i adnabod dulliau o gefnogi chwarae plant.

## GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD AC YMARFER (LEFEL 2 A LEFEL 3)

Mae'r cwrs yma'n arwain at gymhwyster mewn Gofal Plant i unrhyw un sydd eisiau gweithio neu sydd newydd ddechrau gweithio yn y sector plant a phobl ifanc.

Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc o enedigaeth i 19 mlwydd oed a byddan nhw'n cael eu hasesu drwy waith neu leoliad gwaith. Mae'r cymhwyster hwn yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer cyflogaeth a/neu gamu ymlaen yn eu gyrfa.

## DEFNYDDIO SACHAU STORI (DYSGU FEL TEULU)

Bydd dysgwyr yn nodi'r sgiliau a ddatblygir wrth ddefnyddio sachau stori drwy greu a defnyddio'r sachau stori a'i weithgareddau gyda'u plant.

## FFONEG A SILLAFU

Bydd cyfranogwyr yn dysgu sut i ddefnyddio rheolau ffoneg i sillafu. Mae hyn yn eu helpu i ddeall sut mae plant yn dysgu darllen ac ysgrifennu drwy ddysgu seiniau. Byddan nhw'n gallu cefnogi eu plant gyda'u darllen adref ac yn helpu i wella eu sillafu.

## DYSGU DARLLEN YN Y CYFNOD SYLFAEN

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu i gefnogi plentyn gyda'i ddarllen.

## PWYSIGRWYDD RHANNU LLYFRAU

Nod y sesiynau hyn yw datblygu sgiliau cyfathrebu i gefnogi plant gyda'u darllen. Drwy weithgareddau sy'n gysylltiedig â darllen, byddwch yn deall pwysigrwydd rhannu llyfrau gyda phlentyn ac yn dysgu strategaethau sydd ynghlwm wrth ddysgu darllen.



# GOFAL PLANT A DATBLYGIAD PLANT

## HELPU PLENTYN I DDATBLYGU SGILIAU GWRANDO

Dysgwch sut mae sgiliau gwrando yn cael eu datblygu yn ystod plentyndod. Dysgwch rai gweithgareddau a strategaethau fydd yn helpu plant i archwilio a datblygu eu sgiliau gwrando.

## DEFNYDDIO BARDDONIAETH AC ODL GYDA PHLENTYN

1,2,3,4,5... Mi welais jac y do ...
Cyfle i ddeall sut i ddefnyddio barddoniaeth ac odl i helpu plentyn gyda datblygiad iaith.

## CYFLWYNIAD I IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Mae'r cymhwyster hwn yn darparu camau i symud at gyflogaeth a chwblhau cymhwyster Lefel 2 naill ai mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant. Mae'r cwrs yma ar gyfer y rhai sydd eisiau dysgu rhagor am gyflogaeth yn gweithio gyda oedolion, plant a phobl ifanc.

## CEFNOGAETH DOSBARTH

Deall trefn ysgolion a'r ystafell ddosbarth a rolau cefnogi eraill. Dysgu sut i helpu a chefnogi disgyblion yn y dosbarth.

## HELPU PLENTYN GYDA SGILIAU GWRANDO

Bydd dysgwyr yn archwilio ffyrdd o helpu i ddatblygu sgiliau gwrando plant.





# TGAU

**Ddim yn siŵr ai TGAU yw'r peth i chi? Beth am roi cynnig ar gwrs blasu neu gwrs Cyn-TGAU AM DDIM i ddechrau? Ffoniwch 01693 686554 i holi**

## MATHEMATEG

Cwrs blwyddyn ar lefelau Sylfaen / Canolradd / Uwch. Mae'r cwrs yn cynnwys rhifau, algebra, trafod data, siâp a mesur. Bydd y cwrs yn dod i ben ym mis Mai/Mehefin gyda dau arholiad. (un papur cyfrifiannell, un papur heb gyfrifiannell).

## IAITH SAESNEG


Cwrs blwyddyn yn cynnwys sillafu, gramadeg ac atalnodi, siarad a gwrando, deall amrywiaeth o destunau, ysgrifennu disgrifiadol/naratif a gwahanol fathau o destun. Daw'r cwrs i ben ym mis Mai/Mehefin gyda dau arholiad ysgrifenedig a dau asesiad llafar.

## LLENYDDIAETH SAESNEG

Cwrs blwyddyn yn cynnwys barddoniaeth a thestunau drama (un ddrama gan Shakespeare a thri thestun dewisol). Daw'r cwrs i ben ym mis Mai/Mehefin ac mae'n gynnwys dau arholiad ysgrifenedig a thasg asesu dan oruchwyliaeth.

## SEICOLEG

Byddwch yn ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o wybyddiaeth ac ymddygiad, cof, canfyddiad, datblygiad cynnar yr ymennydd a gwahanol ddulliau ymchwil. Byddwch yn arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o ddylanwad cymdeithasol, iaith, meddwl a chyfathrebu a phroblemau seicolegol.





# TGAU

## ASTUDIAETHAU CYFRYNGAU

Mae'r cwrs yma'n trafod pob agwedd o gyfryngau yn cynnwys iaith, cynrychioliadau a rhywedd, diwydiannau a chynulleidfaoedd gan roi golwg fanwl i fyfyrwyr o sut mae'r cyfryngau'n cynrychioli'r byd. Bydd dysgwyr yn dadansoddi rhaglenni teledu, ffilmiau, hysbysebu, papurau newydd ac ati.

## HANES

Cwrs blwyddyn yn cynnwys: rhyfel, dirwasgiad ac adferiad, newidiadau yn Ne Affrica a newidiadau mewn iechyd a meddyginiaeth. Mae tri arholiad ysgrifenedig (ym mis Mai/Mehefin) a thasg asesu dan oruchwyliaeth.

**Ddim yn siŵr ai TGAU yw'r peth i chi? Beth am roi cynnig ar gwrs Cyn-TGAU i ddechrau? Ffoniwch 01693 686554 i holi**





# SAFON UWCH

## LEFEL A SEICOLEG

Cymhwyster CBAC sy'n edrych ar wahanol ddulliau seicolegol, hanes seicoleg, trafodaethau a dulliau ymchwil cyfoes gan ddilyn ymlaen o'r cwrs Seicoleg Uwch Gyfrannol. Mae'r cwrs yma'n edrych ar astudiaethau o ymddygiadau a phynciau llosg o fewn seicoleg. Mae cyfle hefyd i gynnal ymchwiliad personol.

## LEFEL A HANES


Mae'r cwrs blwyddyn yma'n cynnwys dwy astudiaeth fanwl (Hanes Prydain a Hanes heb fod yn Brydeinig). Ar ôl cwblhau'r cwrs Uwch Gyfrannol gall dysgwyr fynd ymlaen i'r ail flwyddyn er mwyn ennill y cymhwyster llawn. Mae'r cwrs Safon Uwch yn dilyn ymlaen o'r cwrs Hanes Uwch Gyfrannol. Mae'n cynnwys dwy uned: Brenhindod a'r Chwyldro Americanaidd a'r Adferiad yng Nghymru a Lloegr 1603 - 1715, a Rhyfel Cartref America a'r digwyddiadau yn ei sgil. Bydd y cwrs yn cynyddu sgiliau dadansoddi'r myfyriwr ac yn rhoi cyfleoedd i ddeall a gwerthuso dehongliadau haneswyr.

## LEFEL A SAESNEG IAITH / LLENYDDIAETH

Mae'r cwrs Iaith a Llenyddiaeth Saesneg yn hyrwyddo astudio integredig o iaith a llenyddiaeth gyda'i gilydd. Mae'n galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau dadansoddi ac adfyfyrio drwy archwilio amrywiaeth o destunau llenyddol a ffeithiol, yn cynnwys barddoniaeth a dramâu a thestunau cyn ac ar ôl yr 20fed ganrif.

## LEFEL A MATHEMATEG

Mae'r cwrs yma'n rhoi cyfle i adeiladu ar y sgiliau a gafwyd ar lefel TGAU mewn pynciau fel geometreg, algebra, calcwlws a thrigonometreg gan ddefnyddio'r syniadau hyn o fewn y pynciau 'cymhwysol' fel mecaneg, ystadegau a mathemateg bur.





# LEFEL 3

## DIPLOMA LEFEL 3 MEWN TROSEDDEG (CBAC)

Ym mlwyddyn 1 bydd dysgwyr yn dechrau edrych ar ddamcaniaethau troseddegol trosedd, pam mae trosedd yn digwydd a'r gwahanol fathau o droseddau. Gall dysgwyr ennill cymhwyster tystysgrif ar ôl blwyddyn 1 neu fynd ymlaen i flwyddyn 2, lle gallan nhw ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach drwy edrych ar safleoedd trosedd a chosbau. Ar ôl blwyddyn 2, gall dysgwyr ennill diploma Lefel 3.

## ADDYSG A HYFFORDDIANT LEFEL 3

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall: rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd mewn addysg a hyfforddiant; dulliau addysgu a dysgu cynhwysol ac egwyddorion ac arferion asesu. Mae canran o'r cwrs yn ymarferol ond does dim gofyniad am leoliad addysgu ar ôl y cwrs.

## YMARFERWYR LLYTHRENNEDD LEFEL 3

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall oedolion a phobl ifanc fel dysgwyr llythrennedd, y gwahanol gamau o asesu dysgwyr llythrennedd a'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni llythrennedd effeithiol. Mae'n ofynnol cael lleoliad addysgu 15 awr a dau arsylwad addysgu yn y cwrs yma.

## YMARFERWYR RHIFEDD LEFEL 3

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall oedolion a phobl ifanc fel dysgwyr rhifedd, y gwahanol gamau o asesu dysgwyr rhifedd a'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni rhifedd effeithiol. Mae'n ofynnol cael lleoliad addysgu 15 awr a dau arsylwad addysgu yn y cwrs yma.

## TYSTYSGRIF LEFEL 3 MEWN ASESU CYFLAWNIAD GALWEDIGAETHOL (TAQA)

Mae'r dystysgrif hon wedi'i bwriadu ar gyfer rhai y mae eu rôl yn cynnwys asesu cyflawniad sy'n berthnasol â galwedigaeth a chymhwysedd galwedigaethol.





# CYRSIAU YCHWANEGOL

## BWYTA IACH

Bydd dysgwyr yn deall maint dognau, grwpiau bwyd a sut i gynllunio prydau bwyd iach.

## COST OF LIVING

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau mewn cyllidebu, coginio ar gyllideb, rheoli arian a help ac arweiniad ar ddyled.

## COGINIO AR GYLLIDEB

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau rhifedd angenrheidiol er mwyn cyllideb ar gyfer deiet iach, yn cynnwys datblygu sgiliau rhifedd i brynu cynhwysion ac offer coginio i'w defnyddio adref.

## LLYTHRENNEDD DIGIDOL AR GYFER CREDYD CYNHWYSOL

Bydd y cwrs yma'n darparu sgiliau llythrennedd digidol i ddysgwyr i'w galluogi i wneud hawliadau a'u rheoli ar-lein yn dilyn cyflwyno'r System Credyd Cynhwysol.





# SGILIAU DIGIDOL

## SGILIAU AR GYFER GWEITHDY DYSGU AR-LEIN

Bydd y gweithdy galw i mewn yma'n cefnogi dysgwyr i orchfygu'r rhwystrau i ddysgu ar-lein, yn cynnwys defnyddio eu ffôn symudol, tabled neu gyfrifiadur eu hun ar gyfer dysgu.

## TECHNOLEG ADDASOL

Mae'r cwrs yma'n dysgu pobl ag anableddau (yn cynnwys amhariadau golwg a chlyw) sut i ennill sgiliau ac annibyniaeth wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, gyda sylw penodol ar y rhyngrwyd ac e-bostio.

## GOOGLE DRIVE

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau i drefnu, stori, rhannu a gwarchod gwybodaeth ddigidol.

## SGILIAU DIGIDOL AR GYFER DECHREUWYR

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau ar gyfer y defnydd diogel ac effeithiol o'r rhyngrwyd ac e-bost i gyfathrebu ac i wneud ymchwil i wybodaeth; bydd dysgwyr yn dysgu sut i gadw a storio ffeiliau ar wahanol ddyfeisiau megis ffonau clyfar, gliniaduron a thabledi.

## SGILIAU SWYDDFA A PHROSESU GEIRIAU

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau cyfathrebu angenrheidiol ar gyfer prosesu geiriau ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ar y ddarpariaeth o wasanaethau gweinyddol.





# SGILIAU HANFODOL AM DDIM

## SGILIAU HANFODOL - RHIFEDD

Dosbarth llawn gwybodaeth i oedolion sydd am wella eu sgiliau rhifedd (Mathemateg). Mae'r cwrs yma'n helpu dysgwyr i wneud cyfrifiadau, datblygu synnwyr rhifau, mesur a phwysau gyda chywirdeb, casglu a dehongli data a gweithio gyda ffracsiynau, degolion, canrannau, arian, ac amser o fewn cyd-destun mathemateg bob dydd fel talu biliau'r cartref. Mae'r addysgu'n addas i bob gallu, yn cynnwys pobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u dysgu neu sydd ag anghenion penodol megis Dyslecsia, Dyspracsia ac ati.

## SGILIAU HANFODOL - LLYTHRENNEDD


Dosbarth i oedolion fyddai'n hoffi gwella eu sgiliau llythrennedd (Saesneg). Mae'r cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddarllen a deall, datblygu strategaethau darllen, gwella geirfa, Cyfathrebu gydag eraill a datblygu eu sgiliau ysgrifennu i wella hyder a chywirdeb. Mae'r addysgu'n addas i bob gallu, yn cynnwys pobl sydd angen cefnogaeth ychwanegol gyda'u dysgu neu sydd ag anghenion penodol megis Dyslecsia, Dyspracsia ac ati.

## GWYDDONIAETH - TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD MEWN GWYDDONIAETH

Bydd tystysgrif Lefel Mynediad TGAU mewn gwyddoniaeth yn galluogi'r dysgwr i ddatblygu gwybodaeth mewn meysydd allweddol o wyddoniaeth ac ar yr un pryd bydd yn datblygu hyder mewn amrywiaeth o sgiliau ymarferol a sgiliau datrys problemau. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o brosesau gwyddonol, yn cynnal eu harbrofion eu hunain, yn casglu data ac yn gwerthuso canlyniadau.

## LLWYBRAU MYNEDIAD

Cymhwyster cyn-TGAU gan CBAC sy'n rhoi sylfaen rhagorol i astudio ar y lefel hwn. Gall dysgwyr ddewis o blith amryw o bynciau yn cynnwys Saesneg, Cyfryngau, Hanes, Gwyddoniaeth a Mathemateg.



# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## YMWYBYDDIAETH O ANABLEDD

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i archwilio cysyniadau 'anabledd' a 'chynhwysiant' o fewn deddfwriaeth gyfredol i ddeall y rhwystrau y mae unigolion ag anabledd yn eu profi a'r atebion i'w gorchfygu. Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i adnabod gwahanol agweddau tuag at anabledd mewn perthynas â gwahaniaethu a sut y gallai'r rhain gael eu siapio yn y dyfodol.

## YMWYBYDDIAETH O DDYSCALCULIA

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall beth yw Dyscalculia, sut i'w adnabod a sut i ymateb iddo, yr effaith y mae'n ei gael ar unigolion a sut i gefnogi'r rhai sydd â Dyscalculia.

## YMWYBYDDIAETH O ADHD

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i gynyddu eu gwybodaeth o ADHD. Mae hyn yn cynnwys sut mae'n effeithio ar unigolion a sut y gallwn gefnogi'r rhai sydd ag ADHD.

## YMWYBYDDIAETH O DDYSPRACSIA

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall yr anawsterau y gallai unigolyn â Dyspracsia eu profi, sut mae'n ymddangos yn y dosbarth, y llwybr a'r broses at gyfeirio a ffyrdd o gefnogi unigolion.

## YMWYBYDDIAETH O DDYSLECSIA

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i gynyddu eu gwybodaeth am Ddylecsia, Dyslecsia fel anabledd yn ôl y gyfraith, sut y mae'n effeithio ar unigolion a sut y gallwn ni gefnogi'r rhai sydd â Dyslecsia.






# ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

## CYFLWYNIAD I GOLLED SYNHWYRAIDD

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol am golled synhwyraidd, yn cynnwys colli golwg, colli clyw a dallfyddardod.

## CYFATHREBU'N EFFEITHIOL GYDA PHOBL AG ADY

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd datblygu strategaethau a chyfleoedd cyfathrebu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol(ADY), yn enwedig plant gydag anawsterau cyfathrebu mwy sylweddol megis y rhai ag ADHD a/neu awtistiaeth.

## CEFNOGI DYSGU PLANT A PHOBL IFANC SYDD Â PHROBLEMAU IECHYD MEDDWL

Bydd dysgwyr yn deall ac yn dysgu cefnogi anghenion oedolion a phobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl mewn lleoliad addysgol.

## YMWYBYDDIAETH O AWTISTIAETH

Bydd y cwrs yma'n helpu dysgwyr i ddeall yr anawsterau y gallai unigolion sydd â chyflyrau sbectrwm awtistig eu profi, pwysigrwydd y sbectrwm awtistig a'r angen amdano, ffyrdd o gefnogi unigolion a dulliau mewn perthynas â chyfathrebu.





# DYNIAETHAU

## TROSEDDAU IEUENCTID

Mae'r cwrs yma'n rhoi'r wybodaeth i'r dysgwr am bobl ifanc a'r system cyfiawnder troseddol. Bydd dysgwyr yn dechrau edrych ar achosion troseddau ieuenctid, effaith ymddygiad troseddol a dulliau all helpu i leihau troseddau ieuenctid.

## SEICOLEG PLANT

Cyflwyniad i faes seicoleg plant a rhai o'r cwestiynau allweddol megis 'Beth sy'n dylanwadu ar ddatblygiad plant?' Byddwch yn astudio cymdeithasoli cynnar, ymlyniad ac yn edrych ar y ddadl natur/magwraeth. Mae'r pynciau'n cynnwys iaith a datblygiad, rhywedd a dulliau ymchwil.

## SEICOLEG TROSEDDU

Yn ystod y cwrs yma fe gewch y cyfle i drafod yn feirniadol y diffiniad o ymddygiad troseddol ac yn edrych ar astudiaethau achos unigol. Byddwch yn astudio'r gwahanol ddulliau o ddeall a datrys troseddau. Mae testunau'n cynnwys proffilio a seicoleg fforensig.

## CYFRAITH DROSEDDOL

Dyma gyflwyniad i gyfraith trosedd, troseddau a chosbau cysylltiedig. Byddwch yn dysgu deall rôl cyfraith trosedd, natur troseddu, atebolrwydd a'r amrywiaeth o gosbau sydd ar gael i'r llysoedd.

## CYFLWYNIAD I IECHYD MEDDWL

Nod yr uned hon yw rhoi gwell dealltwriaeth i ddysgwyr ar sut i ddilyn ffordd o fyw iach. Byddwch yn edrych ar bynciau megis maetheg, ysmygu, iechyd rhywiol, sylweddau ac alcohol.

## DEALL IECHYD MEDDWL

Byddwch yn canfod effaith rhagfarn ar unigolion sy'n byw gydag iechyd meddwl problemus, yn dysgu am achosion problemau iechyd meddwl, sut i hyrwyddo lles meddyliol a'r gefnogaeth sydd ar gael i unigolion sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl.



# DYNIAETHAU

## DEALL PROBLEMAU IECHYD MEDDWL A CHAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU SY'N CYD-DDIGWYDD

Bydd dysgwyr yn gallu diffinio beth yw ystyr problemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd a byddant yn gallu nodi llwybrau gofal cychwynnol a gofal eilaidd ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio gan hyn.

## SEICOLEG DATBLYGIAD - CYMDEITHASOLI CYNNAR

Bydd dysgwyr yn deall datblygiad cymdeithasoli, ffurfio ymlyniad a ffactorau sy'n effeithio ar hyn ac effeithiau hir-dymor ar blant sy'n ganlyniad i brofiadau cynnar.

## RHEOLI GORBRYDER

Bydd dysgwyr yn adnabod ac yn deall effeithio gorbryder a sut y gellir rheoli hyn.

## DEALL CORFF A MEDDWL

Bydd dysgwyr yn deall problemau corfforol cyffredin a'u hachosion seicolegol posibl ac yn dysgu mwy am y corff ac am sut y mae'n gweithio.

## IEITHOEDD FFRANGEG / PORTIWGALEG / EIDALEG I DDECHREUWYR

Cyrsiau ar wahân i ddechreuwyr wedi'u cynllunio ar gyfer rhai ag ychydig neu ddim gwybodaeth flaenorol. Byddwch yn datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad mewn iaith newydd.

## CAMAU CYNTAF YN Y GYMRAEG

Mae'r cwrs yma'n caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio peth geirfa sylfaenol yn Gymraeg a datblygu eu sgiliau i gefnogi plentyn wrth iddo/i gaffael yr iaith Gymraeg.





# DYNIAETHAU

## CYFLWYNIAD I SEICOLEG

Cyflwyniad i seicoleg yw hwn sy'n rhoi sylfaen ar gyfer symud ymlaen. Bydd dysgwyr yn astudio gwahanol feysydd seicoleg ac yn diffinio rhai cysyniadau sylfaenol mewn seicoleg. Mae'r pynciau'n cynnwys damcaniaethau personoliaeth, modelau cof a thechnegau arsylwi.

## SEICOLEG DATBLYGIAD

Mae'r cwrs Lefel 2 yma'n trafod sawl agwedd o seicoleg datblygiad yn cynnwys y drafodaeth natur/magwraeth, damcaniaethau datblygiad cyfnodol a'r cod moeseg sy'n berthnasol i arbrofion seicolegol. Mae hefyd yn trafod perthynas cymdeithasoli cynnar a datblygiad plant.

## HANES CYMRU

Cwrs Lefel 1 achrededig sy'n cynnig cyflwyniad i astudio Hanes Cymru. Mae'r cwrs yn edrych ar ffynonellau cynradd ac eilaidd ac ar rôl Cymry arwyddocaol. Bydd dysgwyr yn cwblhau'r uned drwy gynhyrchu eu prosiect eu hunain ar unigolyn o'u dewis.

## YSGRIFENNU CREADIGOL

Cwrs Lefel 2 achrededig sy'n cynnig cyflwyniad gwych i ysgrifennu'n greadigol. Mae genres yn cynnwys ffuglen, ffeithiol, ysgrifennu bywyd, ysgrifennu taith a rhagor. Caiff yr uned ei chwblhau gyda phrosiect estynedig mewn genre o ddewis y dysgwr.





# SGILIAU GWAITH

## LLETYGARWCH

Bydd dysgwyr yn cael gwybod am hanfodion y diwydiant lletygarwch, yn cynnwys yr amrywiaeth eang o allfeydd sy'n cynnig gwasanaethau o'r fath. Yn benodol, byddwch yn dysgu pa fathau o rolau swydd sydd ar gael mewn allfeydd amrywiol. Byddwch yn canfod ble y gallwch chi gael hyfforddiant pellach ac ennill mwy o gymwysterau. Mae Sgiliau Lletygarwch yn cynnwys gwasanaeth cwsmeriaid, cyfathrebu, pam mae cwsmeriaid yn dod yn ôl, mathau a rolau swyddi, adeiladu enw da cadarnhaol a mathau o gontractau cyflogaeth.

## DYFARNIAD DIOGELWCH BWYD LEFEL 1 A 2

Mae dyfarniad Gofal Bwyd Lefel 2 HABC yn gymhwyster sy'n cael ei gydnabod gan y diwydiant.

## GWEINYDDU LEFEL 1 A 2

Ymchwil, e-bost, Microsoft Word ac Excel. Mae pynciau'r cwrs yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau gweinyddol, sgiliau a nodweddion angenrheidiol, sut i gynllunio cyfarfod, cynhyrchu llythyrau busnes, e-byst a thaenlenni sylfaenol. Byddwch yn dysgu sut mae swyddfa'n gweithio ac am y gwahanol fathau o offer swyddfa.

## RHEOLI PERFFORMIAD A DATBLYGIAD PERSONOL

Bydd dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i reoli perfformiad, amser a llwyth gwaith personol. Byddan nhw hefyd yn gallu adnabod eu hanghenion datblygu eu hunain ac yn cyflawni cynllun datblygu personol.

## SGILIAU CYFATHREBU YN Y GWEITHLE

Mae'r cwrs yma'n cynnwys edrych ar stereoteipio a chategoreiddio cymdeithasol, darllen beth mae pobl yn ei feddwl mewn gwirionedd, gwella eich cyfathrebu eich hun, cefnogaeth i ymddangos yn hyderus, dysgu rhagor am pam ein bod yn gweithredu yn y modd a wnawn a pham bod pobl yn ffurfio barn amdanon ni, trafod amrywiaeth eang o dechnegau y gellir eu defnyddio i wella cyfathrebu.

## CYLLIDEBU

Gwnewch y gorau o'ch arian ar y cwrs dau ddiwrnod yma. Bydd dysgwyr yn deall yr angen am gyllidebu o fewn y cartref ac yn deall dulliau talu am bethau fel gwasanaethau, ffonau symudol ac ati a ffyrdd i gael y fargen orau.



# SGILIAU GWAITH

## SGILIAU CANOLFAN ALW A GALWADAU'N DOD I MEWN

Nid cwrs am alwadau diwahoddiad yw hwn. Mae'n trafod dealltwriaeth o ddiogelu data, sut i siarad gyda chwsmeriaid, casglu gwybodaeth a dysgu sut i ddelio gyda chwynion.

## SGILIAU MEWN CYFWELIAD

Mae'r cwrs yma'n edrych ar beth sy'n digwydd mewn cyfweliad, sut i gyfathrebu, pam bod iaith y corff mor bwysig, paratoi ar gyfer cyfweliad, sgiliau gwrando a chwestiynau cyfweliad. Mae'r cwrs hefyd yn cynnwys ffug gyfweliad.

## SGILIAU GWYTNWCH

Bydd y cwrs undydd yma'n rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth i chi o wytnwch a strategaethau unigolyn er mwyn gwella eich gwytnwch eich hun. Byddwch yn edrych ar greu agwedd gadarnhaol ar fywyd, eich sgiliau gwytnwch eich hun a gwahanol ffyrdd i'w gwella nhw.

## SGILIAU ADWERTHU UNED 1 A 2

Mae'r cwrs yma'n cynnwys deall sut mae siopau a chadwyni cyflenwi'n gweithio, sut maen nhw'n gwerthu cynnyrch, pam bod cwsmeriaid yn prynu cynnyrch penodol, pwysigrwydd gwaith tîm, contractau a thelerau cyflogaeth, gwerthusiadau, gwasanaeth cwsmeriaid, adeiladu sylfaen gwsmeriaid, creu'r argraff iawn a thrafod cwynion.

## DIOGELU

Mae'r cwrs yma wedi'i anelu at bobl sy'n gweithio mewn amrywiaeth eang o leoliadau gan gyflwyno maes pwysig diogelu unigolion rhag cael eu cam-drin.

## GORESGYN RHWYSTRAU I WAITH

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a deall effeithiau gorbryder a sut y gellir rheoli hyn, rhwystrau rhag dod o hyd i waith a sut i gael cefnogaeth a chymorth i orchfygu'r rhain.



# SGILIAU GWAITH

## IECHYD A DIOGELWCH YN Y GWEITHLE

Mae'r cwrs hanner diwrnod hwn ar Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ar gyfer pobl sy'n gweithio neu sy'n edrych am waith mewn unrhyw amgylchedd ac mae'n arwain at gymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol.

## DEALL HYFFORDDI

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r broses hyfforddi ac yn gallu defnyddio sgiliau hyfforddi a gwybodaeth o fewn ffug amgylchedd hyfforddi.

## SGILIAU PENDANTRWYDD

Bydd dysgwyr yn datblygu gwybodaeth a sgiliau ar ddefnyddio pendantrwydd.

## NEGODI MEWN AMGYLCHEDD BUSNES

Nod yr uned hon yw datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyfathrebu mewn amgylchedd busnes. Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu cynhyrchu gohebiaeth busnes ysgrifenedig ac yn gallu cyfathrebu ar lafar mewn amgylcheddau busnes.

## CWBLHAU FFURFLENNI CAIS AM SWYDD

Bydd dysgwyr yn datblygu sgiliau ar gyfer cwblhau ffurflenni cais am swydd a'r broses o gyflwyno ceisiadau.

## HYDER A HUNAN-BARCH

I ddarparu'r cyfle i ddysgwyr agored i niwed ennill cydnabyddiaeth o'u dysgu ar gyrsiau byr sydd wedi cael eu dylunio fel y cam cyntaf mewn proses o ymgysylltu gydag addysg.

## RHEOLI DICTER A GWRTHDARO

Bydd dysgwyr yn deall effeithiau dicter a sut y gellir defnyddio rheoli gwrthdaro er mwyn osgoi dicter a gwrthdaro.



# SGILIAU GWAITH

## SGILIAU DERBYNFA

Bydd y sesiwn hwn yn addysgu dysgwyr i gyflawni dyletswyddau syml yn y dderbynfa yn cynnwys trafod galwadau sy'n dod i mewn a rhyngweithio gyda chwsmeriaid yn briodol o fewn eu lefelau cyfrifoldeb eu hunain.

## EGWYDDORION ARWAIN TÎM

Nod y cwrs yma yw cyflwyno'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn arwain tîm. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o egwyddorion allweddol arwain tîm, yn cynnwys arddulliau arweinyddiaeth, dynameg timoedd a symbyliad timoedd. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o'r technegau gaiff eu defnyddio i reoli gwaith timoedd ac effaith rheoli newid o fewn tîm.

## RHEOLI STRAEN

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod a deall eu straen personol a sut i reoli agweddau o straen.



# FFIOEDD ARHOLIADAU AC AD-DALIADAU CYRSIAU

| Hyd y cwrs | Ffi Lawn | Ffi Ostyngol |
|---|---|---|
| 2 Wythnos / 4 Awr | £10 | £10 |
| 4 Wythnos / 8 Awr | £20 | £10 |
| 6 Wythnos / 12 Awr | £25 | £10 |
| 8 Wythnos / 8 Awr | £32 | £10 |
| 10 Wythnos / 20 Awr | £40 | £10 |
| 20 Wythnos / 40 Awr | £80 | £20 |
| 30 Wythnos / 40 Awr | £100 | £25 |

# LLEOLIADAU'R CYRSIAU

| | | |
|---|---|---|
| Llyfrgelloedd | Tir-morfa | YMCA Castell-nedd |
| Neuadd Ysgolion | Eglwysi | Canolfan Busnes Sandfields |

**Cysylltwch â ni i ddarganfod neu trefnu cwrs yn agos i chi**

## FFIOEDD ARHOLIADAU A CHYRSIAU PENODOL

- Iaith Arwyddion Prydain (Lefel 1, 2 a 3 Arwyddol)
  Ffi Ostyngol £25, Ffi Lawn £100 A ffioedd arholiad = £55-105
- Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (CCPLD) £150
- Ffioedd Arholiadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch £42 -£55

## CYRSIAU'N CAEL EU CANSLO

Mae'r wybodaeth yn y prosbectws hwn yn gywir adeg ei gynhyrchu. Noder bod cyrsiau yn amodol ar ddigon o bobl yn mynychu. Bydd Addysg Oedolion yn newid neu'n canslo cyrsiau lle mae amgylchiadau'n galw am hynny.

## AD-DALIADAU

Bydd ad-daliad llawn o ffioedd cwrs ond yn cael ei ganiatáu os:

- Bydd cwrs yn cael ei ganslo gan y gwasanaeth
- Bydd diwrnod, amser, lleoliad neu ddull cyflwyno'r cwrs yn cael ei newid gan y gwasanaeth a bod hynny'n annerbyniol.

Y gwasanaeth fydd yn gyfrifol am y penderfyniad i wneud ad-daliad fel y gwêl yn dda. Mae'r gwasanaeth yn cadw'r hawl i godi ffi weinyddu o £10 am ad-daliadau. Noder, dim ond ceisiadau ysgrifenedig am ad-daliadau fydd yn cael eu hystyried. Anfonwch eich llythyr/e-bost yn gofyn am ad-daliad gan nodi'r rheswm yn glir at y Rheolwr Prosiect, Michelle Trigg. E-bost: m.trigg@npt.gov.uk neu ysgrifennwch at: M. Trigg Rheolwr y Prosiect, Canolfan Tir Morfa, Marine Drive, Sandfields, Port Talbot, SA12 7NN.



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Castell-nedd Port Talbot
Oedolion Dysgu yn y Gymuned

## Dilynwch ni ar ein cyfryngau cymdeithasol

## neu cysylltwch â ni

01639 686654   nptal@npt.gov.uk

